Penblwydd Pwy

CYTGAN
Pen-blwydd pwy?
Pen-blwydd pwy?
Pen-blwydd arbennig.
Pen-blwydd pwy?
Pen-blwydd pwy
Ar ddydd Nadolig?
Pen-blwydd Iesu,
Ceidwad y byd;
Dewch draw i Fethlem
I'w weld yn Ei grud.

1. Dewch i weld y baban
Yn cysgu yn y gwair;
Baban bach a anwyd
I Joseff ac i Mair.

CYTGAN

2. Dewch i weld bugeiliaid
Yn syllu arno'n syn;
Wedi gweld yr angel
I fyny ar y bryn.

CYTGAN

3. Dewch i weld y doethion
A ddaeth o'r dwyrain draw;
Dod i weld y brenin
Ac anrheg yn eu llaw.